



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Cerdyn gweithredu mesurau rhesymol i ysgolion

Cyngor ar fesurau sy'n debygol o fod yn rhesymol i'w cymryd i leihau'r risg o coronafeirws mewn ysgolion.

Cyhoeddwyd gyntaf: 27 Awst 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 27 Awst 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-i-ysgolion-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Beth yw hwn?

Cyd-destun

Pa gamau rhesymol ddylwn i ystyried eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â coronafeirws?

Cyfathrebu

Beth yw hwn?

Mae'r Cerdyn Gweithredu hwn yn darparu cyngor ar fesurau sy'n debygol o fod yn rhesymol i'w cymryd i leihau'r risg o coronafeirws mewn ysgolion.

Dylid ei ddarllen ar y cyd gyda [rheoliadau](#) Llywodraeth Cymru a [chanllawiau eraill \(mwy cyffredinol\)](#).

Cyd-destun

- Mae'r Cerdyn Gweithredu hwn yn berthnasol i'r lleoliadau canlynol: ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd (gan gynnwys chweched dosbarth), ysgolion arbennig, darparwyr ôl-16 arbennig, ysgolion babanod, iau a chanol, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion preswyl ac ysgolion annibynnol.
- Rhaid ystyried y mesurau rhesymol isod fel rhan o asesiad risg coronafeirws yr ysgol.
- Wrth benderfynu pa fesurau rhesymol sy'n fwyaf perthnasol i'ch sefyllfa dylech:
 - gyfeirio at yr 'hierarchaeth rheolaethau' yn y Fframwaith Penderfyniadau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-i-ysgolion-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Rheoli Heintiau COVID-19 lleol ar gyfer ysgolion

- ymgynghori â'ch staff, awdurdod lleol, arweinwyr Profi, Orlhain, Diogelu a Timau Rheoli Achosion Lluosog yn ôl yr angen
- Nid yw hon o reidrwydd yn rhestr lawn a gallai mesurau rhesymol eraill na chyfeirir atynt isod fod yn briodol.

Pa gamau rhesymol ddylwn i ystyried eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â coronafeirws?

1. Y ffordd fwyaf effeithiol o atal COVID-19 rhag cael ei drosglwyddo yn ein hysgolion yw drwy atal yr haint rhag cyrraedd yr ysgol. Rhaid i unrhyw un sy'n profi yn positif am COVID-19 hunanynysu a phheidio â mynd i'r ysgol. Dylai unrhyw un sy'n datblygu symptomau hefyd hunanynysu a threfnu prawf.
2. Os oes dysgwr, aelod o staff neu ymwelydd yn mynd yn sâl neu'n symptomatig tra yn mynychu'r ysgol, dylent adael yr ysgol ar unwaith a dilyn cyngor Profi, Orlhain a Diogelu, gan gynnwys hunanynysu a threfnu prawf.
3. Annog rheini sy'n gymwys i dderbyn y cynnig o ddau ddos o frechlyn COVID-19.
4. Cadw cofnod o bwy sy'n bresennol er mwyn cefnogi'r broses olrhain cysylltiadau os bydd angen.
5. Annog staff a rhieni/gofalwyr i roi gwybod i chi yn uniongyrchol am unrhyw ganlyniadau prawf positif.
6. Annog dysgwyr i gynnal pellter corfforol lle bynnag bo hynny'n bosibl.
7. Sicrhau bod staff yn cynnal pellter corfforol.
8. Gwneud y mwyaf o awyru naturiol neu fecanyddol (gan osgoi defnyddio ffaniau sy'n ail-gylchredeg).
9. Gwneud y defnydd mwyaf o'r ardaloedd awyr agored sydd ar gael.
10. Annog pob dysgwr ac aelod o staff i olchi eu dwylo yn gyson.
11. Sicrhau bod trefniadau glanhau addas mewn lle.
12. Defnyddio gorchuddion wyneb lle bo hynny'n cael ei gynghori.
13. Dilyn y [canllawiau i ysgolion](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-i-ysgolion-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cyfathrebu

Bydd yn bwysig i chi barhau i gyfathrebu â staff, dysgwyr, a rhieni/gofalwyr y negeseuon ac ymyriadau COVID-19 allweddol sy'n berthnasol i'ch ysgol. Mae deunyddiau a llythyrau rhybuddio a hysbysu ar gael fel rhan o'r fframwaith i helpu i gyfleu negeseuon allweddol.

Dolenni i ganllawiau allweddol

Lefel rhybudd 0: canllawiau i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau

Hunanynysu

Profi, olrhain, diogelu: coronafeirws

HSE – Risk Assessment during the coronavirus pandemic (Saesneg yn unig)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-i-ysgolion-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Cerdyn gweithredu mesurau rhesymol i ysgolion](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-i-ysgolion-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-i-ysgolion-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).